## Sul y Blodau

**Gweddi Agoriadol:**

Ar Sul y Blodau tyrd yn awr,
a doed y nefol wlith i lawr,
rho help i foli Mab y nef
a rhoi'r Hosanna iddo ef.

**Darllen Sechareia 9:9–10; Marc 11: 1–11**

**Neges:**

Gelwir y Sul hwn, sef y Sul cyn y Pasg, yn 'Sul y Blodau' oherwydd yr arfer o addurno beddau â blodau. Gellir olrhain hyn yn ôl i'r bymthegfed ganrif pan oedd hefyd yn arferiad adeg y Nadolig a'r Sulgwyn. Daeth yn fwyfwy poblogaidd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn arbennig yn Ne Cymru ddiwydiannol. Mae'n parhau'n arferiad cyffredin heddiw. Gall fod yn arwydd annwyl a chariadus, ond nid yw'n benodol Gristnogol ac ysgrythurol.

Mewn rhai eglwysi cynhelir oedfa Sul y Blodau i blant a phobl ifanc, ar adegau gwahanol, gan addurno'r capel. Oedfaon gwerthfawr, mae'n siŵr. Ond y Sul dan sylw yw hwnnw sy'n cofio am Iesu'n marchogaeth i Jerwsalem ar gefn asyn a'r bobl yn taenu eu dillad ar y ffordd ac yn chwifio dail palmwydd. Onid yw Sul y Palmwydd yn enw mwy addas arno?

Ond ei ystyr a'i arwyddocâd sy'n bwysig. Mae'n amlwg fod Iesu wedi paratoi'r orymdaith hon yn ofalus ac yn fwriadol. Mae'n weithred ddewr. Yn awr, mae'n cyhoeddi'n agored pa fath o frenhiniaeth y daeth yn enw Duw i'w sefydlu. Adfer y deyrnas i Israel oedd gobaith llawer trwy ddull milwrol, fel y Brenin Dafydd yn Jerwsalem (2 Samuel 19:15), neu trwy ddull goruwchnaturiol. Gwahanol iawn i'r disgwyl oedd ffordd Iesu o Nasareth.

**Neges:**

Cyhoeddi ei fuddugoliaeth ymlaen llaw a wna Iesu. Gwêl y goron heibio'r groes. Mae'n dathlu'r fuddugoliaeth cyn y frwydr. Ar Sul y Blodau mae'n bwysig cofio nodweddion y deyrnas y mae ef mor sicr o'i llwyddiant. Ni ellir ei sefydlu trwy rym milwrol. Yn ôl Sechareia, roedd Effraim wedi ymddiried mewn cerbydau a Jerwsalem mewn meirch. Dyna fu eu gobaith; ond yn awr, medd Duw, fe'u torrir ymaith. Mae yn dod i Jerwsalem ar gefn asyn, symbol diamheuol mai arfau Iesu yw tynerwch, gwyleidd-dra a heddwch. Ni ellir sefydlu llywodraeth Dduw yng nghalonnau pobl trwy ddulliau rhyfelgar. Ateb Iesu i Peilat oedd, 'Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn.'

Sefydlir hi trwy 'gyhoeddi'r newyddion da,' ac efe a 'lefara heddwch i'r cenhedloedd,' (Sechareia 9:10); cymharer Eseia 52:7, 'Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed y negesydd sy'n gyflawn wedi ei wreiddio mewn perthynas â Duw.' Adlewyrchir hyn mewn cyfiawnder ymhob agwedd ar fywyd – economaidd, gwleidyddol, biolegol a chrefyddol. Teyrnas ddiderfyn yw, a 'bydd ei llywodraeth o fôr i fôr ... a hyd derfynau'r ddaear'. Teyrnas dragwyddol yw eiddo Duw daionus a thrugarog. 'Nid siglo mae, fel gweinion bethau'r byd.'

**Gweddi:**

Dduw Dad, cymorth ni i ddod yn wylaidd at yr wythnos fawr. Glanha feddyliau ein calonnau fel y bydd pob myfyrdod yn deilwng ac yn glod i ti. Diolchwn i ti mai dod i gynnig gwir heddwch a wnaeth. 'Heddwch o'n mewn, i ddifa llygredd calon; heddwch i'r byd, yn lle ei frwydrau creulon – heddwch y cymod'. Dwg ar gof i ni mai 'achub nawr' yw ystyr 'Hosanna'. Dysg i ni ymuno yn yr hosanna. Achub yn awr, Arglwydd, gwared ni, Arglwydd, rho dy wir ryddid i ni, Arglwydd.

Mae angen ein gwaredu oddi wrth bob drygioni, rhag popeth sy'n diraddio ac yn ein caethiwo. Arglwydd, helpa ni i gofio nad digon yw achub rhag ein rhyddhau i wasanaethu ac i wneud dy ewyllys.

Dysg ni o'r newydd nad casáu yw'r ateb i gasineb, nad bod yn dreisgar yw'r ateb i drais, ac nad talu'r pwyth yn ôl yw'r ateb i greulondeb.

Diolchwn nad dod fel brenin daearol mewn rhwysg a gormes a wnaeth Iesu ond fel Tywysog Tangnefedd i greu perthynas newydd rhyngom a thi, ac â'n gilydd.

O! tyrd yn awr, Waredwr da,
teyrnasa ymhob calon,
ym mywyd pawb myn orsedd wen
ac ar dy ben bo'r goron.

***Oedfaon Ffydd, gol. Aled Davies***